



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 Rhif 3343 (Cy.304)

2006 No. 3343 (W.304)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

**Rheoliadau Rhaglenni Datblygu
Gwledig (Cymru)
2006**

**The Rural Development
Programmes (Wales) Regulations
2006**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r Rhaglenni Datblygu Gwledig ("rhaglenni"), a sefydlwyd o dan Reoliadau Cyngor y Gymuned Ewropeaidd 1698/2005 a 1257/1999. Yng Nghymru, bydd y Rheoliadau hyn yn rheoleiddio'r rhaglenni presennol sy'n cael eu gweinyddu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a rhaglenni newydd a weinyddir ganddo.

These Regulations apply to the Rural Development Programmes ("programmes"), established under the European Community Council Regulations 1698/2005 and 1257/1999. In Wales, these Regulations will regulate existing and new programmes which are administered by the National Assembly for Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y ddeddfwriaeth Gymunedol a restrir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau ("y ddeddfwriaeth Gymunedol"). Mae'r darpariaethau yn y ddeddfwriaeth Gymunedol yn uniongyrchol gymwys i Aelod-wladwriaeth ac mae eu heffaith yn uniongyrchol mewn Aelod-wladwriaeth. Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu fframwaith cyfreithiol domestig i roi'r ddeddfwriaeth Gymunedol ar waith yng Nghymru.

These Regulations supplement the Community legislation listed in the Schedule to the Regulations ("the Community legislation"). The provisions in the Community legislation are directly applicable and have direct effect in a member State. These Regulations provide a domestic legal framework for the operation of the Community legislation in Wales.

Mae'r ddeddfwriaeth Gymunedol yn darparu (ymhlith darpariaethau eraill) fod cymorth i'w roi o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig tuag at weithrediadau sy'n hyrwyddo datblygu gwledig yng Nghymru.

The Community legislation provides (amongst other provisions) for assistance to be granted from the European Agricultural Fund for Rural Development towards operations which promote rural development in Wales.

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi pŵer i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol") gymeradwyo gweithrediadau ar gyfer derbyn cymorth ariannol, i osod amodau ar unrhyw gymeradwyaeth o'r fath (rheoliad 4) ac i dalu cymorth ariannol (rheoliad 3). Mae'r Rheoliadau yn pennu hefyd o dan ba amgylchiadau y caniateir i gymeradwyaeth a roddwyd ar gyfer gweithrediad gael ei dirymu ac i gymorth ariannol a dalwyd i fuddiolwr, mewn cysylltiad â'r gweithrediad hwnnw, gael ei atal neu ei adennill (rheoliad 9).

These Regulations provide the National Assembly for Wales ("the National Assembly") with the power to approve operations for the receipt of financial assistance, to attach conditions to any such approval (regulation 4) and pay financial assistance (regulation 3). The Regulations also set out the circumstances in which approval of an operation may be revoked and financial assistance paid to a beneficiary, in respect of that operation, may be withheld or recovered (regulation 9).

Mae'r Rheoliadau yn rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu i bersonau awdurdodedig mewn perthynas â thir lle mae gweithrediad a gymeradwywyd wedi'i leoli neu lle mae dogfennau sy'n ymwneud â gweithrediad a gymeradwywyd yn cael eu cadw (rheoliad 7) (diffinnir "person awdurdodedig" yn rheoliad 2(1)). Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol hefyd i fuddiolwyr cymorth ariannol gadw cofnodion sy'n ymwneud â'r gweithrediad a gymeradwywyd am gyfnod penodol (rheoliad 8), i ddarparu unrhyw wybodaeth a fynno'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â'r gweithrediadau a gymeradwywyd (rheoliad 6), ac i gynorthwyo person awdurdodedig wrth i'r person hwnnw arfer ei bwerau o dan reoliad 9.

Mae rheoliad 10 yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol hawlio llog ar symiau sy'n ddyledus iddo. Mae rheoliad 11 yn darparu y gellir adennill fel dyled symiau sy'n daladwy i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn dramgwydd (rheoliad 12) i wneud datganiadau anwir gan wybod hynny neu i'w gwneud yn ddi-hid, i rwystro person awdurdodedig yn fwriadol wrth i'r person hwnnw arfer ei bwerau o dan reoliad 7, ac i fethu (heb esgus rhesymol) â chadw cofnodion perthnasol am y cyfnod gofynnol o dan reoliad 8 neu i fethu â rhoi cymorth i berson awdurdodedig.

Mae rheoliad 13 yn ei gwneud yn ofynnol i fuddiolwr roi ymrwymiad os gofynnir iddo wneud hynny. Mae rheoliad 14 yn ymdrin â darpariaethau dirymu ac arbed.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Rheoliad hwn. Mae copïau ar gael oddi wrth Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

The Regulations provide powers of entry and inspection to authorised persons in relation to land on which an approved operation is situated or documents relating to an approved operation are held (regulation 7) ("authorised person" is defined in regulation 2(1)). The Regulations also requires beneficiaries of financial assistance to keep records relating to the approved operation for a certain period (regulation 8), to supply such information relating to the approved operations as the National Assembly requires (regulation 6), and to assist an authorised person in the exercise of his or her powers under regulation 9.

Regulation 10 allows the National Assembly to demand interest on sums due to it. Regulation 11 provides that sums payable to the National Assembly are recoverable as a debt.

The Regulations make it an offence (regulation 12) to knowingly or recklessly make false statements, intentionally to obstruct an authorised person in the exercise of his powers under regulation 7, and to fail (without reasonable excuse) to keep relevant records for the required period under regulation 8 or to provide an authorised person with assistance.

Regulation 13 requires a beneficiary to give an undertaking if required to do so. Regulation 14 deals with revocation and savings provisions.

A Regulatory Appraisal has been prepared for this Regulation. Copies of which are available from the Department of Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2006 Rhif 3343 (Cy.304)

2006 No. 3343 (W.304)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu
Gwledig (Cymru)
2006The Rural Development
Programmes (Wales) Regulations
2006*Wedi'u gwneud**13 Rhagfyr 2006**Made**13 December 2006**Yn dod i rym**1 Ionawr 2007**Coming into force**1 January 2007*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(1) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(2) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol.

The National Assembly for Wales, being designated(1) for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(2) in relation to the common agricultural policy of the European Community, in exercise of the powers conferred on it by that section, makes the following Regulations.

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rhaglenni Datblygu Gwledig (Cymru) 2006.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ionawr 2007 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

Title, application and commencement

1.-(1) The title of these Regulations is the Rural Development Programmes (Wales) Regulations 2006.

(2) These Regulations come into force on 1 January 2007 and apply in relation to Wales.

Dehongli

2.-(1) Yn y Rheoliadau hyn, os nad yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall-

ystyr "buddiolwr" ("*beneficiary*") yw person y mae cymorth ariannol wedi'i roi iddo;

ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn y Cymunedau Ewropeaidd;

ystyr "cymorth ariannol" ("*financial assistance*") yw swm a dalwyd neu sy'n daladwy o dan y Rheoliadau hyn;

ystyr "cymorth Cymunedol" ("*Community assistance*") yw cymorth o Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a roddwyd yn unol â'r ddeddfwriaeth Gymunedol;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

Interpretation

2.-(1) In these Regulations, unless the context requires otherwise-

"approved operation" ("*gweithrediad a gymeradwywyd*") means an operation which the National Assembly has approved in writing for the receipt of financial assistance, and "approve" ("*cymeradwyo*") and "approval" ("*cymeradwyaeth*") are to be construed accordingly;

"authorised person" ("*person awdurdodedig*") means a person authorised by the National Assembly for the purposes of these Regulations, and includes any duly appointed official of the Commission who accompanies such an authorised person;

"beneficiary" ("*buddiolwr*") means a person who has been granted financial assistance;

(1) O.S. 2005/2766.

(2) 1972 p. 68.

(1) S.I. 2005/2766.

(2) 1972 c. 68.

ystyr "y ddeddfwriaeth Gymunedol" ("*the Community legislation*") yw'r offerynnau a restrir yn yr Atodlen;

mae i'r term "gweithrediad" yr ystyr a roddir i "*operation*" yn Rheoliad y Cyngor 1698/2005 dyddiedig 20 Medi 2005 ynglŷn â chymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD);

ystyr "gweithrediad a gymeradwywyd" ("*approved operation*") yw gweithrediad y mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ar gyfer derbyn cymorth ariannol, ac mae "cymeradwyo" ("*approve*") a "cymeradwyaeth" ("*approval*") i'w dehongli'n unol â hynny;

ystyr "person awdurdodedig" ("*authorised person*") yw person a awdurdodwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion y Rheoliadau hyn, ac mae'n cynnwys unrhyw swyddog i'r Comisiwn a benodwyd yn briodol ac sy'n dod gyda'r person awdurdodedig hwnnw.

Cymorth ariannol

3.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol dalu cymorth ariannol i fuddiolwr tuag at wariant a dynnwyd mewn cysylltiad â gweithrediad a gymeradwywyd.

(2) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn talu cymorth ariannol, caiff dalu-

- (a) ar unrhyw adeg, neu drwy unrhyw randaliadau a hynny o dro i dro fel y gwêl yn dda neu ar unrhyw adegau a wêl yn dda, a
- (b) yn ddarostyngedig i unrhyw amodau ynglŷn â thalu y bydd yn penderfynu arnynt.

Cymeradwyo gweithrediadau

4.-(1) Rhaid i gais am gymeradwyo gweithrediad-

- (a) cael ei wneud ar y ffurf a'r amser a fyynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol; a
- (b) cynnwys yr wybodaeth a fyynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol, cyhyd â'i fod wedi'i fodloni bod gweithrediad y mae'r cais yn berthnasol iddo yn gymwys i gael cymorth Cymunedol, gymeradwyo'r gweithrediad hwnnw ar gyfer derbyn cymorth ariannol, a chaniateir i unrhyw gymeradwyaeth o'r fath gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw amodau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn eu penderfynu .

(3) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol amrywio cymeradwyaeth drwy amrywio unrhyw amod y mae'n ddarostyngedig iddo, neu osod amodau.

(4) Cyn amrywio cymeradwyaeth o dan baragraff (2), rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol-

"the Commission" ("*y Comisiwn*") means the Commission of the European Communities;

"Community assistance" ("*cymorth Cymunedol*") means assistance from the European Agricultural Fund for Rural Development, granted pursuant to the Community legislation;

"the Community legislation" ("*y Ddeddfwriaeth Gymunedol*") means the instruments listed in the Schedule;

"financial assistance" ("*cymorth ariannol*") means an amount paid or payable under these Regulations;

"the National Assembly" ("*y Cynulliad Cenedlaethol*") means the National Assembly for Wales;

"operation" ("*gweithrediad*") has the meaning given to it in Council Regulation 1698/2005 of 20 September 2005 on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD).

Financial assistance

3.-(1) The National Assembly may pay financial assistance to a beneficiary towards expenditure incurred in connection with an approved operation.

(2) Where the National Assembly makes payments of financial assistance, it may make such payments-

- (a) at such a time, or by such instalments at such intervals or times as it thinks fit, and
- (b) subject to such conditions relating to payment as it may determine.

Approval of operations

4.-(1) An application for the approval of an operation must-

- (a) be made in such form and at such time, and
- (b) contain such information, as the National Assembly may require.

(2) The National Assembly may, provided that it is satisfied that an operation to which the application relates is eligible for Community assistance, approve that operation for the receipt of financial assistance, and any such approval may be given subject to such conditions as the National Assembly may determine.

(3) The National Assembly may vary an approval by varying any condition to which it is subject, or imposing conditions.

(4) Before varying an approval under paragraph (2), the National Assembly must-

- (a) rhoi i'r buddiolwr hysbysiad ysgrifenedig ei fod yn bwriadu gwneud hynny ynghyd â datganiad o'r rhesymau;
- (b) rhoi i'r buddiolwr gyfle i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig o fewn yr amser y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn barnu ei fod yn rhesymol; ac
- (c) ystyried y sylwadau hynny.

Hawliadau

5. Mae unrhyw hawliad am gael taliad cymorth ariannol i'w wneud ar unrhyw amser ac ar unrhyw ffurf ac i ddod gydag unrhyw wybodaeth a fynno'r Cynulliad Cenedlaethol.

Darparu gwybodaeth

6.-(1) Rhaid i fuddiolwr ddarparu i'r Cynulliad Cenedlaethol unrhyw wybodaeth am weithrediad a gymeradwywyd a fynno'r Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynnu gwybodaeth o dan baragraff (1), rhaid i'r buddiolwr ddarparu'r wybodaeth honno o fewn unrhyw gyfnod y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei benderfynu.

Pwerau person awdurdodedig

7.-(1) Caiff person awdurdodedig, ar bob adeg resymol ac ar ôl dangos, os gofynnir iddo wneud hynny, ei awdurdod i wneud hynny, fynd ar unrhyw dir ac eithrio tir a ddefnyddir at ddibenion annedd yn unig-

- (a) y mae gweithrediad a gymeradwywyd yn ymwneud â hi, neu
- (b) y mae ganddo sail resymol dros gredu bod dogfennau sy'n ymwneud â gweithrediad a gymeradwywyd yn cael eu cadw ynddi,

at unrhyw un o'r dibenion a grybwyllir ym mharagraff (2).

- (2) Y dibenion hynny yw-
 - (a) arolygu'r tir y mae'r gweithgaredd a gymeradwywyd yn ymwneud ag ef;
 - (b) gwirio cywirdeb unrhyw wybodaeth a ddarperir gan fuddiolwr sy'n ymwneud â'r gweithrediad;
 - (c) canfod a oes unrhyw gymorth ariannol yn daladwy neu a ellir ei adennill neu ganfod swm y cymorth ariannol hwnnw sy'n daladwy neu y gellir ei adennill;
 - (ch) canfod a oes tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn wedi'i gyflawni neu'n cael ei gyflawni; a
 - (d) canfod drwy ddull arall a yw cymorth Cymunedol yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon ac yn gywir.

- (a) give the beneficiary notice in writing that it proposes to do so with a statement of reasons;
- (b) give the beneficiary an opportunity to make written representations within such time as the National Assembly considers reasonable; and
- (c) consider such representations.

Claims

5. Any claim for payment of financial assistance is to be made at such time and be in such form and be accompanied by such information as the National Assembly may require.

Provision of information

6.-(1) A beneficiary must supply to the National Assembly such information about an approved operation as the National Assembly may require.

(2) Where the National Assembly requires information under paragraph (1), the beneficiary must supply that information within such period as the National Assembly may determine.

Powers of an authorised person

7.-(1) An authorised person may, at all reasonable times and on production, if so required, of his or her authority to do so, enter upon any land other than land which is used solely for the purpose of a dwelling-

- (a) to which an approved operation relates, or
- (b) on which he or she has reasonable grounds to believe that documents relating to an approved operation are retained,

for any of the purposes mentioned in paragraph (2).

- (2) Those purposes are-
 - (a) inspecting the land to which the approved operation relates;
 - (b) verifying the accuracy of any information provided by a beneficiary relating to the operation;
 - (c) ascertaining whether any financial assistance is payable or recoverable or the amount of such financial assistance that is payable or recoverable;
 - (d) ascertaining whether an offence under these Regulations has been or is being committed; and
 - (e) otherwise ascertaining whether Community assistance is being efficiently and correctly used.

(3) Caiff person awdurdodedig sydd wedi mynd ar unrhyw dir yn rhinwedd y rheoliad hwn wneud y canlynol-

- (a) arolygu'r tir ac unrhyw ddogfen, cofnod neu gyfarpar sydd arno ac y mae'n rhesymol i'r person hwnnw gredu ei bod neu ei fod yn ymwneud â'r gweithrediad;
- (b) ei gwneud yn ofynnol i'r buddiolwr, neu unrhyw gyflogai, gwas neu asiant i'r buddiolwr, ddangos unrhyw ddogfen neu gofnod, neu ddarparu unrhyw wybodaeth ychwanegol, sydd ym meddiant y person hwnnw neu o dan ei reolaeth ac sy'n ymwneud â'r gweithrediad;
- (c) pan gedwir unrhyw ddogfen, cofnod neu wybodaeth y cyfeirir ati neu ato yn is-baragraff (b) drwy gyfrwng cyfrifiadur, mynd at ac arolygu unrhyw gyfrifiadur ac unrhyw offer neu ddeunydd cysylltiedig a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r ddogfen neu'r wybodaeth honno neu â'r cofnod hwnnw;
- (ch) ei gwneud yn ofynnol i gopiâu neu ddarnau o unrhyw ddogfen, cofnod neu wybodaeth sy'n ymwneud â'r gweithrediad, gael eu cynhyrchu;
- (d) cymryd unrhyw ddogfen, cofnod neu wybodaeth ynglŷn â'r gweithrediad oddi yno a'i chadw neu ei gadw am gyfnod rhesymol pan fo gan y person awdurdodedig reswm dros gredu y gallai fod angen defnyddio'r ddogfen neu'r wybodaeth honno, neu'r cofnod hwnnw, fel tystiolaeth mewn achos cyfreithiol o dan y Rheoliadau hyn a phan fo angen cadw unrhyw ddogfen o'r fath drwy gyfrwng cyfrifiadur, ei gwneud yn ofynnol iddi gael ei chynhyrchu ar ffurf y gellir mynd â hi oddi yno ac sy'n golygu ei bod yn weladwy ac yn ddarllenadwy.

(4) Rhaid i fuddiolwr neu unrhyw gyflogai, gwas neu asiant i fuddiolwr roi pob cymorth rhesymol i berson awdurdodedig mewn perthynas â'r materion a grybwyllwyd yn y rheoliad hwn.

(5) Caiff person awdurdodedig sy'n mynd ar unrhyw dir yn rhinwedd y rheoliad hwn fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn angenrheidiol ac mae paragraffau (1), (2), (3) a (4) yn gymwys i bersonau o'r fath, pan fônt yn gweithredu o dan gyfarwyddiadau person awdurdodedig, fel petaent hwythau'n berson awdurdodedig.

(6) Nid yw person awdurdodedig yn atebol mewn unrhyw achos cyfreithiol am unrhyw beth a wneir drwy arfer honedig o'r pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd y rheoliad hwn os yw'r llys wedi'i fodloni bod y weithred wedi'i gwneud yn ddiwyll, bod sail resymol dros ei gwneud a'i bod wedi'i gwneud gyda medr a gofal rhesymol.

(7) Yn y rheoliad hwn, ystyr "y gweithrediad" yw'r gweithrediad a gymeradwywyd y mae mynediad i dir wedi'i geisio mewn perthynas ag ef yn unol â pharagraff (1).

(3) An authorised person who has entered any land by virtue of this regulation may-

- (a) inspect the land and any document, record or equipment thereon which that person reasonably believes relates to the operation;
- (b) require the beneficiary, or any employee, servant or agent of the beneficiary, to produce any document, record or supply any additional information in that person's possession or under his or her control relating to the operation;
- (c) where any document, record or information referred to in sub-paragraph (b) is kept by means of a computer, have access to and inspect any computer and any associated apparatus or material which is or has been used in connection with that document, record or information;
- (d) require that copies of, or extracts from any document, record or information relating to the operation be produced;
- (e) remove and retain for a reasonable period any document, record or information relating to the operation which the authorised person has reason to believe may be required as evidence in proceedings under these Regulations and, where any such document is kept by means of a computer, require it to be produced in a form in which it may be taken away and in which it is visible and legible.

(4) A beneficiary or any employee, servant or agent of a beneficiary must render all reasonable assistance to an authorised person in relation to the matters mentioned in this regulation.

(5) An authorised person entering any land by virtue of this regulation may take with him or her such other persons as he or she considers necessary and paragraphs (1), (2), (3) and (4) apply to such persons, when acting under the instructions of an authorised person, as if they were an authorised person.

(6) An authorised person is not liable in any proceedings for anything done in purported exercise of the powers conferred on the authorised person by virtue of this regulation if the court is satisfied that the act was done in good faith, that there were reasonable grounds for doing it and that it was done with reasonable skill and care.

(7) In this regulation, "the operation" means the approved operation in relation to which entry onto land has been sought pursuant to paragraph (1).

Cadw cofnodion

8.-(1) Ac eithrio fel a ddarperir ym mharagraffau (2) a (3), rhaid i fuddiolwr gadw unrhyw anfoneb, cyfrif neu ddogfen arall ynglŷn â gweithrediad a gymeradwywyd tan ddiwedd chwe blynedd ar ôl y taliad diwethaf o gymorth ariannol a wnaed iddo yn unol â rheoliad 3 mewn perthynas â'r gweithrediad hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw ddogfen a gymerwyd oddi yno gan unrhyw berson sydd wedi'i awdurdodi'n gyfreithlon i'w chymryd.

(3) Pan fo buddiolwr, yn nhrefn arferol busnes, yn trosglwyddo'r fersiwn wreiddiol o unrhyw ddogfen y cyfeiriwyd ati ym mharagraff (1) i berson arall, rhaid i'r buddiolwr gadw copi o'r ddogfen honno tan ddiwedd y cyfnod a bennwyd ym mharagraff (1).

Pwerau'r Cynulliad i adennill etc.

9.-(1) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol arfer y pwerau a bennir ym mharagraff (2) pan fo wedi'i fodloni, o ran gweithrediad a gymeradwywyd-

- (a) na chydymffurfiwyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol ag unrhyw amod y cyfeiriwyd ato yn rheoliad 3 neu 4;
- (b) nad oedd y cais a gymeradwywyd felly o dan reoliad 4 (neu unrhyw ran ohono) yn gais (neu'n rhan) yr oedd y buddiolwr yn gymwys i'w wneud;
- (c) bod y buddiolwr neu gyflogai, gwas neu asiant i fuddiolwr wedi-
 - (i) methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan reoliad 6, rheoliad 7(3)(b), rheoliad 7(3)(ch) neu reoliad 7(4);
 - (ii) rhoi gwybodaeth am unrhyw fater sy'n berthnasol i roi cymeradwyaeth sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn ffordd sydd o bwys;
- (ch) bod y gweithrediad a gymeradwywyd wedi'i ddechrau cyn y dyddiad y rhoes y Cynulliad Cenedlaethol ganiatâd ysgrifenedig i hynny gael ei wneud;
- (d) na chydymffurfiwyd ag unrhyw ymrwymiadau a roddwyd gan y buddiolwr o dan reoliad 13;
- (dd) bod y buddiolwr wedi methu â chydymffurfio â rheoliad 8;
- (e) bod newid o bwys yn natur, graddfa, costau neu amseriad y gweithrediad a gymeradwywyd;
- (f) nad oedd neu nad yw'r gweithrediad a gymeradwywyd yn cael ei gyflawni'n briodol;
- (ff) bod y gweithrediad a gymeradwywyd wedi cael neu wrthi'n cael ei ohirio'n afresymol neu ei fod yn annhebyg o gael ei gwblhau;

Record keeping

8.-(1) Save as provided in paragraphs (2) and (3), a beneficiary must retain any invoice, account or other document relating to an approved operation until the end of six years after the last payment of financial assistance made to him or her pursuant to regulation 3 in relation to that operation.

(2) Paragraph (1) does not apply in relation to any document removed by any person lawfully authorised to remove it.

(3) Where, in the normal course of business, a beneficiary transfers the original of any document referred to in paragraph (1) to another person, the beneficiary must retain a copy of that document until the end of the period specified in paragraph (1).

Assembly's powers of recovery etc.

9.-(1) The National Assembly may exercise the powers specified in paragraph (2) where it is satisfied, as regards an approved operation, that-

- (a) any condition referred to in regulation 3 or 4 has not been complied with in whole or in part;
- (b) the application so approved under regulation 4 (or any part of it) was not an application (or part) which the beneficiary was eligible to make;
- (c) the beneficiary or an employee, servant or agent of a beneficiary has-
 - (i) failed to comply with any requirement under regulation 6, regulation 7(3)(b), regulation 7(3)(d) or regulation 7(4);
 - (ii) has given information on any matter relevant to the giving of the approval which is false or misleading in a material respect;
- (d) the approved operation was commenced before the date on which the National Assembly gave written permission to do so;
- (e) any undertakings given by the beneficiary under regulation 13 have not been complied with;
- (f) the beneficiary has failed to comply with regulation 8;
- (g) there is a material change in the nature, scale, costs or timing of the approved operation;
- (h) the approved operation has not been or is not being properly carried out;
- (i) the approved operation has been or is being unreasonably delayed or is unlikely to be completed;

- (g) bod y cymorth ariannol yn dyblygu neu y byddai'n dyblygu cymorth a roddwyd neu sydd i'w roi o arian a roddwyd ar gael gan-
 - (i) y Cymunedau Ewropeaidd,
 - (ii) y Cynulliad Cenedlaethol, neu
 - (iii) corff sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig;
 - (ng) bod y buddiolwr yn torri unrhyw ofyniad y mae'n ddarostyngedig iddo o dan y Rheoliadau hyn neu o dan y ddeddfwriaeth Gymunedol;
 - (h) bod y gweithrediad a gymeradwywyd yn ddarostyngedig i gosbau sy'n gymwys o dan y ddeddfwriaeth Gymunedol.
- (2) Mae'r pwerau a roddwyd gan baragraff (1) yn bwerau i wneud y canlynol-
- (a) dirymu'r gymeradwyaeth o'r gweithrediad yn gyfan gwbl neu'n rhannol;
 - (b) lleihau neu atal unrhyw gymorth ariannol mewn perthynas â'r gweithrediad a gymeradwywyd;
 - (c) adennill ar archiad y cyfan neu unrhyw ran o unrhyw gymorth ariannol a dalwyd eisoes i'r buddiolwr.
- (3) Pan fo'r Comisiwn wedi penderfynu lleihau neu atal cymorth dros dro, caiff y Cynulliad Cenedlaethol arfer y pwerau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (2).
- (4) At ddibenion paragraff (1)(g), mae swm yn dyblygu cymorth ariannol os yw'n cael ei dalu, neu os byddai'n cael ei dalu at unrhyw un o'r un dibenion.

Adennill llog

10.-(1) Pan fo'r Cynulliad Cenedlaethol yn arfer y pwerau a roddwyd gan reoliad 9(2)(c), caiff adennill hefyd, ar archiad, log ar y swm sydd i'w adennill ar gyfradd o 1 pwynt canran uwchlaw LIBOR am y cyfnod sy'n dechrau ar y diwrnod y rhoddyd y cymorth ariannol tan y diwrnod y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn adennill y swm.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "LIBOR" yw cyfradd sterling dri-misol Llundain a gynigir rhwng banciau ac sydd mewn grym yn ystod y cyfnod rhwng y dyddiad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud y taliad sydd i'w adennill a'r dyddiad y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn adennill y taliad.

(3) Mewn unrhyw achos cyfreithiol ynglŷn â'r rheoliad hwn, bernir bod tystysgrif gan y Cynulliad Cenedlaethol yn datgan beth yw'r LIBOR sy'n gymwys yn ystod cyfnod a bennir yn y dystysgrif yn dystiolaeth ddigamsyniol o'r gyfradd sy'n gymwys yn y cyfnod penodedig os yw'r dystysgrif hefyd yn datgan bod Banc Lloegr wedi hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o'r gyfradd honno.

- (j) the financial assistance duplicates or would duplicate assistance provided or to be provided out of monies made available by-
 - (i) the European Communities,
 - (ii) the National Assembly, or
 - (iii) a body exercising public functions within the United Kingdom;
 - (k) the beneficiary is in breach of any requirement to which he or she is subject under these Regulations or under the Community legislation;
 - (l) the approved operation is subject to penalties applicable under the Community legislation.
- (2) The powers conferred by paragraph (1) are to-
- (a) revoke the approval of the operation in whole or in part;
 - (b) reduce or withhold any financial assistance in respect of the approved operation;
 - (c) recover on demand the whole or any part of any financial assistance already paid to the beneficiary.
- (3) Where the Commission has decided to reduce or suspend assistance, the National Assembly may exercise the powers referred to in paragraph (2).
- (4) For the purposes of paragraph (1)(j), a sum duplicates financial assistance if it is, or would be, paid for any of the same purposes.

Recovery of interest

10.-(1) Where the National Assembly exercises the powers conferred by regulation 9(2)(c), it may also recover, on demand, interest on the sum to be recovered at the rate of 1 percentage point above LIBOR for the period from the day on which the financial assistance was granted until the day on which the National Assembly recovers the amount.

(2) For the purposes of this regulation, LIBOR means the sterling three-month London interbank offered rate in force during the period between the date on which the National Assembly makes the payment to be recovered and the date on which the National Assembly recovers the payment.

(3) In any proceedings relating to this regulation, a certificate of the National Assembly stating the LIBOR applicable during a period specified in the certificate is deemed to be conclusive evidence of the rate applicable in the specified period if the certificate also states that the Bank of England notified the National Assembly of that rate.

Symiau sy'n daladwy i'r Cynulliad Cenedlaethol ac sydd i'w hadennill fel dyled

11. Mewn unrhyw achos pan fo swm i'w dalu i'r Cynulliad Cenedlaethol yn rhinwedd y Rheoliadau hyn (neu yn rhinwedd camau a gymerir o dan y Rheoliadau hyn), gellir adennill y swm hwnnw fel dyled.

Tramgwyddau a chosbau

12.-(1) Bydd unrhyw berson yn euog o dramgwydd-

- (a) os bydd neu yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn o bwys gan wybod hynny, neu'n ei wneud yn ddi-hid, er mwyn sicrhau cymorth ariannol o dan y Rheoliadau hyn iddo'i hun neu i unrhyw berson arall;
- (b) os, o ran yr arfer gan y Cynulliad Cenedlaethol o'r pwerau a bennwyd yn rheoliad 9(2), bydd yn gwneud datganiad sy'n anwir neu'n gamarweiniol mewn manylyn o bwys gan wybod hynny neu'n ei wneud yn ddi-hid;
- (c) os bydd yn methu, heb esgus rhesymol, â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan neu o dan reoliad 7(3)(b), rheoliad 7(3)(ch) neu gan reoliad 8; neu
- (ch) os bydd yn fwriadol yn rhwystro person awdurdodedig (neu berson sy'n dod gydag ef ac sy'n gweithredu o dan ei gyfarwyddiadau) wrth iddo arfer ei bwerau o dan reoliad 7.

(2) Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff (1)(a) a (b) yn agored-

- (a) o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy nad yw'n uwch na lefel 5 ar y raddfa safonol; neu
- (b) o'i gollfarnu ar ddiad, i ddirwy.

(3) Bydd person sy'n euog o dramgwydd o dan baragraff 1(c) neu (ch) yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.

(4) Caniateir i achos cyfreithiol am dramgwydd o dan baragraff (1) gael ei gychwyn, yn ddarostyngedig i baragraff (5), o fewn y cyfnod o chwe mis o'r dyddiad y bydd tystiolaeth, sy'n ddigon ym marn yr erlynydd i gyfiawnhau'r achos cyfreithiol, yn dod yn hysbys iddo.

(5) Ni chaniateir cychwyn unrhyw achos cyfreithiol am dramgwydd o dan baragraff (1) fwy na thair blynedd ar ôl i'r tramgwydd gael ei gyflawni.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, pan fo'r achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn gan y Cynulliad Cenedlaethol-

- (a) mae tystysgrif a lofnodwyd gan neu ar ran yr erlynydd ac sy'n datgan ar ba ddyddiad y daeth tystiolaeth, a oedd yn ddigon yn ei fan ef i gyfiawnhau dwyn yr achos cyfreithiol, yn hysbys iddo yn dystiolaeth ddigamsyniol am y ffaith honno;

Sums payable to the National Assembly to be recovered as a debt

11. In any case where an amount falls to be paid to the National Assembly by virtue of these Regulations (or by virtue of action taken under these Regulations), such amount is recoverable as a debt.

Offences and penalties

12.-(1) A person is guilty of an offence if-

- (a) for the purposes of obtaining financial assistance under these Regulations for himself or herself or for any other person, he or she knowingly or recklessly makes a statement which is false or misleading in a material particular;
- (b) in relation to the exercise by the National Assembly of the powers specified in regulation 9(2), he or she knowingly or recklessly makes a statement which is false or misleading in a material particular;
- (c) he or she fails, without reasonable excuse, to comply with a requirement imposed by or under regulation 7(3)(b), regulation 7(3)(d) or by regulation 8; or
- (d) he or she intentionally obstructs an authorised person (or a person accompanying and acting under his or her instructions) in the exercise of his or her powers under regulation 7.

(2) A person guilty of an offence under paragraph (1)(a) and (b) is liable-

- (a) on summary conviction, to a fine not exceeding level 5 on the standard scale; or
- (b) on conviction on indictment, to a fine.

(3) A person guilty of an offence under paragraph (1)(c) or (d) is liable, on summary conviction, to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.

(4) Proceedings for an offence under paragraph (1) may, subject to paragraph (5), be commenced within the period of six months from the date on which evidence sufficient in the opinion of the prosecutor to justify the proceedings comes to his or her knowledge.

(5) No proceedings for an offence under paragraph (1) may be commenced more than three years after the commission of the offence.

(6) For the purposes of this regulation, where the proceedings are instituted by the National Assembly-

- (a) a certificate signed by or on behalf of the prosecutor and stating the date on which evidence sufficient in his or her opinion to warrant the proceedings came to his or her knowledge is conclusive evidence of that fact;

- (b) bernir bod tystysgrif sy'n datgan y mater hwnnw ac sy'n honni ei bod wedi'i llofnodi felly yn dystysgrif sydd wedi'i llofnodi felly oni phrofir y gwrthwyneb.

(7) Os profir bod tramgwydd o dan y rheoliad hwn a gyflawnwyd gan gorff corfforaethol wedi'i gyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad, neu'n briodoladwy i unrhyw esgeulustod ar ran, unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff corfforaethol hwnnw, neu berson a oedd yn honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd swydd o'r fath, bydd y person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol hwnnw, yn euog o'r tramgwydd hwnnw a bydd yn agored i gael ei erlyn a'i gosbi yn unol â hynny.

(8) Pan fo materion corff corfforaethol yn cael eu rheoli gan ei aelodau, bydd paragraff (7) yn gymwys o ran gweithredoedd a diffygion aelod mewn cysylltiad â'i swyddogaethau rheoli fel pe bai'n gyfarwyddwr y corff corfforaethol hwnnw.

Ymrwymadau

13. Caiff y Cynulliad Cenedlaethol fynnu bod buddiolwr yn rhoi unrhyw ymrwymadau y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn credu eu bod yn briodol i'r achos.

Darpariaethau dirymu ac arbed

14.-(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (2), mae'r rheoliadau canlynol ("y ddeddfwriaeth a ddirymwyd") wedi'u dirymu-

- (a) Rheoliadau Grantiau Datblygu Gwledig (Amaethyddiaeth) (Cymru) 1996(1);
- (b) Rheoliadau'r Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999(2);
- (c) Rheoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001(3);
- (ch) Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) 2001(4);
- (d) Rheoliadau Tir Mynydd (Daliadau Trawsffiniol) (Cymru) 2001(5);
- (dd) Rheoliadau Grant Prosesu a Marchnata Amaethyddol (Cymru) 2001(6);
- (e) Rheoliadau Grant Menter Ffermydd a Grant Gwella Ffermydd (Cymru) 2001(7); ac

- (b) a certificate stating that matter and purporting to be so signed is deemed to be so signed unless the contrary is proved.

(7) Where an offence under this regulation which has been committed by a body corporate is proved to have been committed with the consent or connivance of, or to be attributable to any neglect on the part of, a director, manager, secretary or other similar officer of that body corporate, or any person who was purporting to act in such capacity, he or she as well as that body corporate is guilty of that offence and is liable to be proceeded against and punished accordingly.

(8) Where the affairs of a body corporate are managed by its members, paragraph (7) applies in relation to acts and defaults of a member in connection with his or her management functions as if he or she were a director of that body corporate.

Undertakings

13. A beneficiary may be required by the National Assembly to give such undertakings as the National Assembly considers appropriate to the case.

Revocation and savings provisions

14.-(1) Subject to paragraph (2), the following regulations ("the revoked legislation"), are revoked-

- (a) The Rural Development Grants (Agriculture) (Wales) Regulations 1996(1);
- (b) The Land in Care Scheme (Tir Gofal) (Wales) Regulations 1999(2);
- (c) The Organic Farming Scheme (Wales) Regulations 2001(3);
- (d) The Tir Mynydd (Wales) Regulations 2001(4);
- (e) The Tir Mynydd (Cross-border Holdings) (Wales) Regulations 2001(5);
- (f) The Agricultural Processing and Marketing Grant (Wales) Regulations 2001(6);
- (g) The Farm Enterprise Grant and Farm Improvement Grant (Wales) Regulations 2001(7); and

(1) O.S. 1996/529.

(2) O.S. 1999/1176.

(3) O.S. 2001/424 (Cy. 18).

(4) O.S. 2001/496 (Cy. 23).

(5) O.S. 2001/1154 (Cy. 61).

(6) O.S. 2001/2446 (Cy.199).

(7) O.S. 2001/3806 (Cy.314).

(1) S.I. 1996/529.

(2) S.I. 1999/1176.

(3) S.I. 2001/424 (W. 18).

(4) S.I. 2001/496 (W. 23).

(5) S.I. 2001/1154 (W. 61).

(6) S.I. 2001/2446 (W.199).

(7) S.I. 2001/3806 (W.314).

(f) Rheoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006(1).

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni fydd y dirymiadau ym mharagraff (1) yn effeithio ar weithrediad parhaol y ddeddfwriaeth a ddirymwyd o ran cymorth ariannol a dalwyd neu y gwnaed cais amdano o dan y ddeddfwriaeth a ddirymwyd cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(3) Nid yw paragraff (2) yn gymwys mewn perthynas â'r darpariaethau canlynol-

- (a) rheoliad 9 (Symiau cymorth) a rheoliad 11(3) o Reoliadau'r Cynllun Tir Gofal (Land in Care) (Cymru) 1999, a Rhan II o Atodlen 1 (Cyfraddau talu am ddilyn yr Amodau Amgylcheddol Cyffredinol) ac Atodlen 2 (Gweithgareddau Rheoli Mandadol) ac Atodlen 3 (Gweithgareddau Rheoli Opsiynol) ac Atodlen 4 (Gweithgareddau Cyfalaf) iddynt;
- (b) rheoliad 4 (Penderfynu swm y cymorth a'r cyfnodau y telir cymorth ar eu cyfer) o Reoliadau'r Cynllun Ffermio Organig (Cymru) 2001 ac Atodlen 1 (Cyfrifo Cymorth) iddynt; ac
- (c) rheoliad 14 (Adolygu penderfyniadau) o Reoliadau Grant Prosesu a Marchnata Amaethyddol (Cymru) 2001; ac
- (ch) rheoliad 11 (Symiau cymorth) a rheoliad 13(3) o Reoliadau Tir Cynnal (Cymru) 2006, a Rhan 4 (Taliadau) o'r Atodlen iddynt.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(2)

13 Rhagfyr 2006

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(h) The Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006(1).

(2) Subject to paragraph (3), the revocations in paragraph (1) do not affect the continued operation of the revoked legislation in respect of financial assistance paid or applied for under the revoked legislation prior to the coming into force of these Regulations.

(3) Paragraph (2) does not apply in relation to the following provisions-

- (a) regulation 9 (Amounts of aid) and regulation 11(3) of, Part II of Schedule 1 (Payment rates for following the General Environmental Conditions) and Schedule 2 (Mandatory Management Activities) and Schedule 3 (Optional Management Activities) and Schedule 4 (Capital Activities) to, the Land in Care Scheme (Tir Gofal) (Wales) Regulations 1999;
- (b) regulation 4 (Determination of amount of aid and periods for which aid is paid) of, and Schedule 1 (Calculation of Aid) to, the Organic Farming Scheme (Wales) Regulations 2001; and
- (c) regulation 14 (Review of decisions) of the Agricultural Processing and Marketing Grant (Wales) Regulations 2001; and
- (d) regulation 11 (Amounts of aid) and regulation 13(3) of, and Part 4 (Payments) of the Schedule to, the Tir Cynnal (Wales) Regulations 2006.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(2)

13 December 2006

The Presiding Officer of the National Assembly

D. Elis-Thomas

(1) O.S. 2006/41 (Cy. 7).
(2) 1998 p.38.

(1) S.I. 2006/41 (W. 7).
(2) 1998 c.38.

YSTYR "DEDDFWRIAETH
GYMUNEDOL"

1. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1083/2006 dyddiedig 11 Gorffennaf 2006 sy'n gosod darpariaethau cyffredinol Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, Cronfa Gymdeithasol Ewrop a'r Gronfa Gydlyniant ac yn diddymu Rheoliad (EC) 1260/1999.

2. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1689/2005 dyddiedig 20 Medi 2005 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1463/2006.

3. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1290/2005 dyddiedig 21 Mehefin 2005 ar gyllido'r polisi amaethyddol cyffredin, fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 320/2006.

4. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 796/2004 dyddiedig 21 Ebrill 2004 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu trawsgydymffurfio, modiwlleiddio a'r system integredig gweinyddu a rheoli y darperir ar eu cyfer yn Rheoliad y Cyngor Rhif 1782/2003 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr, fel y diwygiwyd y Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 796/2004 ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 659/2006.

5. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 795/2004 dyddiedig 21 Ebrill 2004 yn gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu cynllun y taliad sengl y darperir ar ei gyfer yn Rheoliad y Cyngor Rhif 1782/2003 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr, fel y diwygiwyd Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 795/2004 ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1291/2006.

6. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 dyddiedig 29 Medi 2003 sy'n sefydlu rheolau cyffredin ar gyfer cynlluniau cymorth uniongyrchol o dan y polisi amaethyddol cyffredin ac yn sefydlu cynlluniau cymorth penodol i ffermwyr ac yn diwygio Rheoliadau (EEC) Rhif 2019/93, (EC) Rhif 1452/2001, (EC) Rhif 1453/2001, (EC) Rhif 1454/2001, (EC) Rhif 1868/94, (EC) Rhif 1251/1999, (EC) Rhif 1254/1999, (EC) Rhif 1673/2000, (EEC) Rhif 2358/71 ac (EC) Rhif 2529/2001, fel y diwygiwyd Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1782/2003 ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor Rhif 1405/2006.

MEANING OF "COMMUNITY
LEGISLATION"

1. Council Regulation (EC) No. 1083/2006 of 11 July 2006 laying down the general provisions of the European Regional Development Fund, the European Social Fund and the Cohesion Fund and repealing Regulation (EC) 1260/1999.

2. Council Regulation (EC) No. 1689/2005 of 20 September 2005 on support for rural development by the European Agricultural Fund for Rural Development (EAFRD), as last amended by Council Regulation (EC) No. 1463/2006.

3. Council Regulation (EC) No. 1290/2005 of 21 June 2005 on the financing of the common agricultural policy, as last amended by Council Regulation (EC) No. 320/2006.

4. Commission Regulation (EC) No. 796/2004 of 21 April 2004 laying down detailed rules for the implementation of cross-compliance, modulation and the integrated administration and control system provided for in Council Regulation No. 1782/2003 establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 659/2006.

5. Council Regulation (EC) No. 795/2004 of 21 April 2004 laying down detailed rules for the implementation of the single payment scheme provided for in Council Regulation No. 1782/2003 establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers, as last amended by Commission Regulation (EC) No. 1291/2006.

6. Council Regulation (EC) No. 1782/2003 of 29 September 2003 establishing common rules for direct support schemes under the common agricultural policy and establishing certain support schemes for farmers and amending Regulations (EEC) No. 2019/93, (EC) No. 1452/2001, (EC) No. 1453/2001, (EC) No. 1454/2001, (EC) 1868/94, (EC) No. 1251/1999, (EC) No. 1254/1999, (EC) No. 1673/2000, (EEC) No. 2358/71 and (EC) No. 2529/2001, as last amended by Council Regulation No. 1405/2006.

7. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1257/1999 dyddiedig 17 Mai 1999 ar gymorth ar gyfer datblygu gwledig gan Gronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGGF) ac sy'n diwygio a diddymu Rheoliadau penodol, fel y diwygiwyd y Rheoliad hwnnw ddiwethaf gan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 1689/2005.

7. Council Regulation (EC) No. 1257/1999 of 17 May 1999 on support for rural development from the European Agricultural Guidance and Guarantee Fund (EAGGF) and amending and repealing certain Regulations, as last amended by Council Regulation (EC) No. 1689/2005.

OFFERYNNAU STATUDOL

2006 Rhif 3343 (Cy.304)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

Rheoliadau Rhaglenni Datblygu
Gwledig (Cymru)
2006

STATUTORY INSTRUMENTS

2006 No. 3343 (W.304)

AGRICULTURE, WALES

The Rural Development
Programmes (Wales) Regulations
2006

©© Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W459/01/07

ON